*This document is available in English*

**Eitem Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sy'n rhoi manylion y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i atodi yn atodiad 1.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn rhoi manylion y gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2024/25 ac yn darparu rhaglen waith ar gyfer 2025/26.

### ARSYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

3 Mae'r adroddiad wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2025.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Bwrdd Pensiwn Lleol.**

## CEFNDIR

5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Lleol yr Awdurdod. Yr Awdurdod yw Rheolwr y Cynllun fel y'i diffinnir o dan Adran 4 Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf honno.

6 Cyflwynwyd y gofynion llywodraethiant yn ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethiant cliriach gyda rolau diffiniedig penodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, a bod yr arferion gweinyddu'n cyd-fynd â'r rheini yn y sector preifat.

7 Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethiant) 2015 sy'n ymwneud â chreu pensiynau lleol a pharhau i'w gweithredu i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

8 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr y Cynllun drwy sicrhau ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Er mwyn hybu tryloywder, mae'n ofynnol i Reolwr y Cynllun gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

9 Fel y pennwyd yng nghylch gwaith y Bwrdd, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- manylion meysydd o bryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed;
- manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd a sut cafodd y rhain eu rheoli;
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi â Rheolwr y Cynllun;
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd; a
- manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**GWYBODAETH**

10 Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei hariannu o'r gyllideb bresennol Gwasanaethau Aelodau. |
| Cyfreithiol | Cyflwynwyd y gofynion llywodraethiant newydd sy'n ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.<br>Rheoliadau Llywodraethiant Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) 2015. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Nid ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yn berthnasol yn gyfartal i bob Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Mae angen i bob Awdurdod Tân ac Achub gydymffurfio â chanllawiau'r Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â threfniadau llywodraethiant Byrddau Pensiwn Lleol. |